Y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Legislation, Justice and
Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr
Amgylchedd a Seilwaith

14 Rhagfyr 2022

Annwyl Llyr

Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ('y Bil') i Senedd y DU. Pe bai'r Bil yn cael ei basio, byddai'n rhoi ar waith gynllun Llywodraeth y DU i ddargadw, dirymu neu ddiwygio miloedd o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir. Byddai hefyd yn dechrau'r cloc ar y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2023, pan fydd y rhan fwyaf o gyfraith yr UE a ddargedwir yn dod i ben yn awtomatig oni bai bod Gweinidogion yn cymryd camau i'w achub neu ei ddiwygio. Yr hyn sy'n destun pryder i ni, fel deddfwyr, yw'r ffaith y byddai'r Bil yn galluogi Gweinidogion, yn hytrach na seneddau, i newid tirwedd reoleiddio a chyfreithiol y DU yn sylweddol.

Mae fy Mhwyllgor i, ers peth amser, wedi bod yn cadw llygad ar gynllun Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir, a gwnaethom ddechrau gofyn cwestiynau i Lywodraeth Cymru rai misoedd yn ôl.

Gyda'r Bil yn cael ei gyflwyno gerbron Senedd y DU, a chan ragweld y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r memorandwm cydsyniad sy'n debygol o fod yn angenrheidiol, cytunodd fy Mhwyllgor i glywed barn rhanddeiliaid yng Nghymru a ledled y DU. Gofynnwyd am safbwyntiau ar nifer o faterion gan gynnwys i ba raddau y gallai'r Bil effeithio ar dirwedd reoleiddiol Cymru; pa rôl ddylai fod gan y Senedd o ran dirymu a diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig; penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chynnal ei hasesiad ei hun o gyfraith yr UE a ddargedwir, gan gynnwys peidio â ffurfio ei barn ei hun ar yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn sydd wedi'i gadw; ac a allai'r Bil gyflwyno cyfyngiadau newydd i Lywodraeth Cymru, sydd am wella'r safonau a oedd ar waith cyn Brexit, lle bo modd.

Amgaeir y dystiolaeth a gawsom gan Dr Gravey a Dr Whitten o Brifysgol Queen's yn Belfast, yr RSPCA, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, a Chyswllt Amgylchedd Cymru. Credwn y gallai'r dystiolaeth hon fod o ddiddordeb i'ch Pwyllgor.

Byddwch hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru bellach wedi gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil, ac mai fy Mhwyllgor i sydd â'r prif gyfrifoldeb am graffu ar y memorandwm.

Yn ein cyfarfod ddydd Llun 5 Rhagfyr, cawsom dystiolaeth gan Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, mewn perthynas â'r Bil a memorandwm cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Efallai yr hoffech nodi bod y Cwnsler Cyffredinol wedi ailadrodd ei bryderon y gallai gweithredu'r Bil, pe bai'n cael ei basio a'i ddeddfu, lethu llywodraethau'r DU. Efallai yr hoffech nodi hefyd y cafodd pryderon ynghylch y goblygiadau i Fusnes y Senedd ac i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru eu trafod hefyd.

Rwy'n ysgrifennu at bwyllgorau eraill y Senedd i dynnu sylw at y dystiolaeth a gawsom sy'n dod o fewn cylch gwaith a buddiannau eu Pwyllgorau.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

Cyflwyniadau gan randdeiliaid i alwad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am safbwyntiau ar y Bil

Dr Gravey a Dr Whitten (Saeneg yn unig)

RSPCA (Saeneg yn unig)

Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU (UKELA) (Saeneg yn unig)

Y Gymdeithas Cadwraeth Forol (Saeneg yn unig)

Cyswllt Amgylchedd Cymru (Saeneg yn unig)